**STIWDIO I'W GOSOD**

**Disgrifiad o'r Adeilad:** Stiwdio 1 – Tŷ Model, Stryd yr Alarch, Llantrisant, RhCT, CF72 8EB

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("Y Cyngor") yn gwahodd ceisiadau i osod stiwdio Celf a Chrefft yn Nhŷ Model, Llantrisant.

## Manylion Eiddo Allweddol

| | |
|---|---|
| **Eiddo:** | Stiwdio 1 – Tŷ Model, Stryd yr Alarch, Llantrisant, RhCT, CF72 8EB. |
| **Defnydd a ganiateir:** | Stiwdio ddylunio gydag ardal fanwerthu ategol a chaffi ategol yn unig, yn amodol ar delerau'r brydles ac unrhyw ganiatâd angenrheidiol.<br><br>Byddai unrhyw ddefnydd arfaethedig y tu allan i'r dosbarthiadau cynllunio canlynol yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpar denant gyflwyno cais cynllunio (ar ei draul ei hun) mewn perthynas â newid defnydd:<br><br>- B1;<br>- A1;<br>- A3. |
| **Arwynebedd Llawr Bras:** | 1133.6 troedfedd sgwâr (tua 105.3 metr sgwâr) |
| **Rhent:** | £11,336 y flwyddyn |
| **Blaendal:** | Gall y Cyngor ei gwneud yn ofynnol i'r Tenant ddarparu blaendal, a gedwir fel gwarant a byddai modd ei ddefnyddio pan gaiff yr Eiddo ei adael mewn cyflwr gwael neu anfoddhaol ar ddiwedd y brydles.<br><br>Bydd y blaendal yn cael ei ddychwelyd i'r Tenant yn dilyn cadarnhad bod yr Eiddo wedi'i adael mewn cyflwr sy'n bodloni'r Cyngor, yn amodol ar delerau'r brydles ac unrhyw ddidyniadau a wnaed yn briodol. |
| **TAW:** | Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i godi TAW, lle bo'n berthnasol. |
| **Tâl Gwasanaeth:** | Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i godi tâl gwasanaeth. Mae rhagor o fanylion ar gael ar gais. |
| **Ardrethi Busnes:** | Bydd y Tenant yn gyfrifol am ardrethi busnes. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch a allai unrhyw ddarpar denant fod |

| | |
|---|---|
| | â hawl i ryddhad ardrethi busnes ar gael o wefan y Cyngor yn y ddolen isod:<br><br>Rhyddhad a gostyngiadau ardrethi busnes \| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| **Tystysgrif Perfformiad Ynni:** | D (Sgôr – 93).<br><br>Mae dolen i'r Dystysgrif Perfformiad Ynni i'w gweld isod:<br><br>https://find-energy-certificate.service.gov.uk/energy-certificate/0897-0955-0030-1600-5803?lang=cy |
| **Argaeledd:** | Ar gael o 23 Tachwedd 2026. |
| **Tymor y Brydles:** | 3-5 mlynedd (i'w drafod). Bydd y brydles yn cael ei chontractio ar sail darpariaethau diogelwch deiliadaeth Deddf Landlord a Thenant 1954. |
| **Yswiriant:** | Caiff Darpar Denantiaid eu cynghori i gael Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gwerth £7.5 miliwn drwy gydol tymor y brydles.<br><br>Os bydd Tenant yn dymuno cael lefel is o Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ac yn dewis peidio â chydymffurfio â chyngor y Cyngor, dylai'r Tenant wirio bod lefel yr yswiriant sydd ganddo yn ddigonol i amddiffyn rhag unrhyw hawliad posibl sy'n deillio o'i feddiannaeth a'i ddefnydd o'r Eiddo. |
| **Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol:** | Bydd y Tenant yn gyfrifol am ffioedd Cyfreithiol a Phroffesiynol y Cyngor mewn perthynas â rhoi'r brydles. |

**Disgrifiad o'r Adeilad**

Mae'r stiwdio'n cynnwys tua 1133.6 troedfedd sgwâr (105.3 metr sgwâr) o lety stiwdio o fewn Tŷ Model, Llantrisant.

Mae'r llety'n darparu:

- Prif ardal stiwdio;
- Gwresogi a goleuo;
- Cyfleusterau toiled cymunedol; a
- Cyfleusterau cegin cymunedol

Mae'r eiddo'n addas i'w ddefnyddio fel stiwdio ddylunio gydag ardal fanwerthu ategol a chaffi ategol yn unig, yn amodol ar delerau prydles safonol y Cyngor ac unrhyw ganiatâd cynllunio neu ganiatâd statudol arall angenrheidiol.

Caiff Darpar Denantiaid eu cynghori i wirio bod y llety yn addas ar gyfer eu defnydd bwriadedig cyn cyflwyno cais.

## Telerau Rhent a Phrydles

Cynigir yr Eiddo am rent o £11,336 y flwyddyn.

Cynigir yr Eiddo drwy gyfrwng prydles am gyfnod o 3-5 mlynedd, yn amodol ar delerau ac amodau safonol y Cyngor.

Bydd y Tenant yn gyfrifol am dalu; rhent, rhenti busnes, cyfleustodau, ac unrhyw dâl gwasanaeth sy'n berthnasol i'r Eiddo.


Bydd y brydles yn cael ei chontractio ar sail darpariaethau diogelwch deiliadaeth Deddf Landlord a Thenant 1954.

Bydd y Tenant yn gyfrifol am atgyweirio a chynnal a chadw mewnol y stiwdio. Mae modd i'r Cyngor godi tâl gwasanaeth mewn perthynas â chostau cynnal yr Eiddo.

Bydd y Tenant hefyd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r holl ofynion statudol perthnasol a chael unrhyw ganiatâd sydd ei angen ar gyfer eu defnydd arfaethedig o'r eiddo.

**Caiff rhagor o fanylion am delerau'r brydles arfaethedig eu darparu i'r ymgeisydd llwyddiannus.**

## Cynllun llawr




Mae'r stiwdio wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod fel y nodir ag ymyl coch ar y cynllun uchod.

*Darperir y cynllun llawr at ddibenion dangosol yn unig. Ni ddylid dibynnu ar fesuriadau a dimensiynau a dylai darpar denantiaid fodloni eu hunain ynghylch cywirdeb yr wybodaeth a gaiff ei darparu.*

**Gwneud Cais**

Gwahoddir partïon sydd â diddordeb i gyflwyno cais i'r Cyngor.

Dylid gofyn am ffurflen gais gan Stephen Watkins (Syrfëwr Ystadau) a'i dychwelyd iddo **erbyn 12pm ar 7 Hydref 2026** fan bellaf.

Mae manylion i ofyn am ffurflen gais isod:

Stephen Watkins (Syrfëwr Ystadau)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
E-bost: stephen.watkins@rctcbc.gov.uk
Ffôn: 07392193738

Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried a'u penderfynu yn unol â gweithdrefnau eiddo perthnasol y Cyngor a'i rwymedigaethau statudol o dan adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gan gynnwys y gofyniad i gael yr ystyriaeth orau y mae modd ei chael yn rhesymol, lle bo'n berthnasol.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ofyn am ragor o wybodaeth gan ymgeiswyr yn rhan o'r broses ymgeisio.

Fydd ceisiadau sy'n cael eu derbyn ar ôl y dyddiad ac amser cau ddim yn cael eu hystyried.

**Ymweld â'r eiddo**

Gall partïon sydd â diddordeb weld yr Eiddo cyn cyflwyno cais. Mae modd ymweld â'r eiddo drwy wneud apwyntiad.

I drefnu apwyntiad i weld yr eiddo, cysylltwch â Stephen Watkins gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

**Gwybodaeth Bwysig**

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i dynnu'r Eiddo oddi ar y farchnad ar unrhyw adeg ac nid oes unrhyw rwymedigaeth arno i dderbyn y cais uchaf nac unrhyw gais a dderbynnir.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ofyn am ragor o wybodaeth gan ymgeiswyr yn rhan o'r broses ymgeisio.

Dylai darpar ymgeiswyr fodloni eu hunain ynghylch addasrwydd yr Eiddo ar gyfer eu defnydd arfaethedig a chynghorir hwy i wneud eu hymholiadau eu hunain ynghylch; cynllunio, ardrethi busnes, trwyddedu, gofynion statudol ac unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i'w meddiannaeth arfaethedig o'r Eiddo.

Caiff yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y manylion yma ei darparu at ddibenion canllaw yn unig ac ni ddylai darpar Denantiaid ddibynnu ar unrhyw ddatganiad na chynrychiolaeth a gaiff eu gwneud yn y manylion yma fel datganiad na chynrychiolaeth ffeithiol.

**Bras amcan yw pob mesuriad ac arwynebedd**.

Caiff y manylion eu darparu at ddibenion canllaw yn unig a dydyn nhw ddim yn gyfystyr â chynnig na chontract. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw anghywirdebau na hepgoriadau yn y manylion yma, a dylai darpar denantiaid fodloni eu hunain ynghylch cywirdeb yr wybodaeth a gaiff ei darparu.

**Bydd y telerau ac amodau meddiannaeth terfynol wedi'u cynnwys yn y brydles**.